| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **17 HYDREF 2016** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH GYFALAF 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Er mwyn i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2017/18, gofynnir am arweiniad gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch faint o gyllid i'w ryddhau, o gofio effaith y rhaglen gyfalaf ar yr elfen cyllid cyfalaf o gyllideb refeniw'r Cyngor.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y pwyntiau a godir yn yr adroddiad ac wedyn gall y Swyddogion ddechrau'r gwaith o baratoi rhaglen gyfalaf 2017/18.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Dim yn berthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu strategaeth gyllidebol y Cyngor wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Dim yn berthnasol

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Ystyriwyd a derbyniwyd yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Dim yn berthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | | |
|---|---|---|
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2017/18 | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

**ATODIAD 1**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Yn unol ag Adran 3, Rhan 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu a pharhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Cefnogir y Ddeddf gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd).

**1.2.** Nid yw'r Côd yn nodi uchafswm benthyca ar gyfer awdurdodau, ond yn hytrach mae'n gosod egwyddorion ar gyfer pennu lefel o fenthyca fforddiadwy a sut y mae'n rhaid monitro'r lefelau hynny. Mae'r wybodaeth fonitro (dangosyddion darbodus) wedi ei chynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol, yr adolygiad canol-blwyddyn a'r adolygiad diwedd blwyddyn yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn bob blwyddyn.

**1.3.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn penderfynu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd yn 2017/18.

## 2. GWYBODAETH CEFNDIR

**2.1.** Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu i greu asedau newydd neu i gynnal asedau cyfredol lle mae oes yr ased yn hwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai diriaethol (adeiladau, cerbydau, isadeiledd) neu'n rhai anniriaethol (trwyddedau meddalwedd).

**2.2.** Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o'r ffynonellau canlynol: -

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol –** Swm o arian yw hwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno.
- **Benthyca â Chymorth** - Bydd y Cyngor yn benthyca arian gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i ariannu'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n deillio o'r benthyca (Costau Llog ac Isafswm Darpariaeth Refeniw) yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sef "Benthyca â Chymorth".
- **Benthyca Digefnogaeth** - Unwaith eto, mae'r Cyngor yn benthycair arian gan y PWLB ond rhaid iddo ariannu'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a ariennir drwy fenthyca digefnogaeth yn tueddu i fod yn brosiectau sy'n darparu arbedion refeniw a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i dalu am gostau refeniw ychwanegol sy'n deillio o'r benthyca.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** - Bydd y Cyngor yn cael grantiau cyfalaf sydd yn ariannu costau prosiect yn llwyr neu'n rhannol. Fel arfer, mae cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf mewn perthynas â'r gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario.
- **Cyfraniad Refeniw** - Gall y Gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i ariannu prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn tueddu i fod ar ffurf arian cyfatebol i brosiectau a ariennir yn bennaf gan grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf –** Gellir defnyddio arian a gynhyrchir yn sgil gwerthu asedau i gyfrannu at ariannu'r rhaglen gyfalaf. Cynhyrchir y rhain fel arfer yn sgil gwerthu asedau dros ben (tir neu adeiladau fel arfer).
- **Cronfeydd wrth gefn –** Gellir defnyddio arian wrth gefn i gefnogi'r rhaglen gyfalaf, e.e. derbyniadau cyfalaf na wnaed defnydd ohonynt.

**2.3.** Cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016/17 gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2016 ac fe'i crynhoir yn Nhabl 1 isod. Mae rhaglen fanylach ynghlwm yn Atodiad 2.

| Tabl 1<br>Rhaglen Gyfalaf 2016/17 | |
|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Cyllideb Flynyddol 2016/17 £ '000** |
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,000 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 14,169 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 |
| Adfywio Economaidd | 5696 |
| Priffyrdd | 10,973 |
| Rheoli Gwastraff | 628 |
| Eiddo | 1,128 |
| Trawsnewid | 1,653 |
| Cynllunio | 975 |
| Gwasanaethau Oedolion | 914 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **50,912** |
| **Wedi'i ariannu gan:** | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,336 |
| Grantiau Cyfalaf Penodol | 23,275 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6575 |
| Benthyca â Chymorth | 2,189 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,030 |
| Cyfraniadau Refeniw | 10,667 |
| Cronfeydd wrth gefn | 500 |
| Yswiriant | 340 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **50,912** |

**2.4.** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gweithredu dull un gronfa o ran benthyca, h.y. nid ydym yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a gwariant Cronfa'r Cyngor. Mae’r holl fenthyciadau yn cael eu cyfuno mewn un cronfa a rhennir y costau rhwng y Cyfrif Refeniw Tai a Chronfa’r Cyngor a hynny’n seiliedig ar lefel y gwariant a ariennir trwy fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa hyn.

**2.5.** Fel rhan o'r broses gynllunio, mae ymrwymiadau ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd yn cael eu nodi, er nad oes sicrwydd y bydd yr arian mewn gwirionedd yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiect penodol. Mae'r ymrwymiadau posib ar gyfer 2017/18, ynghyd â'r ffynhonnell gylllido bosib, i’w gweld yn Nhabl 2 isod: -

| Tabl 2<br>Ymrwymiadau Cyfalaf Posib yn 2017/18 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllun** | **Cyllid 2017/18 £** | **Ariannwyd gan** | | | | |
| | | **Grant** | **Benthyca Digefnogaeth** | **Benthyca â Chymorth** | **Cyfraniad Refeniw** | **Grant Cyfalaf Cyffredinol a Derbyniadau Cyfalaf** |
| Ysgol Cybi | 149 | 50 | 75 | 25 | 0 | 0 |
| Ysgol y Llannau | 131 | 44 | 65 | 22 | 0 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Seiriol | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000 |
| Priffordd Newydd - Wylfa | 4918 | 4918 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Parc y Bont | 874 | 293 | 437 | 144 | 0 | 0 |
| Gweithredu CCIS | 75 | 0 | 0 | 75 | 0 | 0 |
| Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw / Bro Rhosyr | 3,696 | 1,238 | 1,848 | 610 | 0 | 0 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 1,500 | 1,500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,450 | 1,450 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Seilwaith Strategol Caergybi | 1,957 | 1,935 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| Seilwaith Strategol Llangefni | 1,157 | 1,135 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| Rheoli Cynnwys Gwefan | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 |
| Trwyddedau Meddalwedd | 72 | 0 | 0 | 0 | 0 | 72 |
| Serfwyr & Disgiau | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 |
| Gwaith Cynnal a Chadw a Raglennwyd – CRT | 5492 | 2,650 | 0 | 0 | 2842 | 0 |
| CRT Tai Newydd | 2,184 | 0 | 0 | 0 | 2,184 | 0 |
| **CYFANSWM** | **24,780** | **15,213** | **2,425** | **876** | **5026** | **1,243** |

## 3. CYFYNGIADAU AR ARIANNU NEWYDD

**3.1.** Fel yr esboniwyd ym mharagraff 2.2, mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu o wahanol ffynonellau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd.

- Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor oherwydd bod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i ariannu’r gwariant cyfalaf. Efallai y bydd yna wahaniaethau amseru a all arwain at grantiau’n cael eu cario drosodd o un flwyddyn i’r llall trwy fantolen y Cyngor.

- Mae derbyniadau Cyfalaf yn arwain at droi asedau dros ben yn arian parod sydd, yn ei dro, yn creu ased newydd. Unwaith eto,nid oes gan y math hwn o gyllid fawr ddim effaith tymor hir ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond daw amser pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn disgyn.
- Defnyddio'r gwarged yn y Cyfrif Refeniw Tai (yr incwm rhent sydd dros ben y gwariant) i ariannu gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n cael effaith ar Gronfa'r Cyngor.
- Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth yr arian a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn neu'r swm a drosglwyddir i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n troi arian dros ben yn ased newydd.
- Mae benthyca â chymorth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor sydd â goblygiadau i'r gyllideb refeniw ar ffurf cynnydd yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a thaliadau llog blynyddol.

**3.2.** Mae'r GCC yn mesur gofyniad sylfaenol y Cyngor i fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf, h.y. y gwariant cyfalaf nad yw wedi ei ariannu eto gan dderbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf neu gyfraniadau o incwm refeniw. Ni ddylai lefel y benthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na'r gofyniad cyllido cyfalaf. Mae'r GCC yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefel y DIR a godir ar Gyfrif Refeniw'r Cyngor.

**3.3.** Mae'r DIR yn swm bach y mae'n rhaid ei godi ar y cyfrif refeniw er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau. Nid yw'r tâl DIR yn arwain at fenthyciadau yn cael eu had-dalu ar yr un pryd neu ar yr un raddfa â'r DIR mewn gwirionedd. Ad-delir benthyciadau yn unol â thelerau'r cytundebau benthyca unigol a gellir eu hariannu o fenthyciadau newydd neu drwy ddefnyddio arian dros ben o fewn yr Awdurdod.

**3.4.** Mae'r DIR a godir i Gronfa'r Cyngor yn cael ei gyfrifo ar 4% o falans agoriadol y GCC ar gyfer pob prosiect ar wahân i'r prosiectau hynny a ariennir drwy fenthyca digefnogaeth, lle mae'r DIR yn seiliedig ar fywyd defnyddiol yr ased.

**3.5.** Yn ychwanegol at y DIR, bydd benthyca â chymorth neu fenthyca digefnogaeth yn arwain at godi dâl llog ar gyfrif refeniw'r Cyngor. Wrth i'r benthyca gynyddu, bydd rhaid cyllido'r tâl llog hefyd ac mae'r llog hwn, ynghyd â'r DIR, yn gyfyngiad ar faint y gellir ei gymryd ar fenthyg.

**3.6.** Ym mhob setliad, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r setliad cyfalaf ar gyfer yr holl awdurdodau lleol ac mae hyn, yn ei dro, yn cael ei rannu rhwng y 22 awdurdod lleol, gan nodi faint fydd yn cael ei ariannu ar ffurf Grant Cyfalaf Cyffredinol a faint o fenthyca â chymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ariannu, h.y. mae'r setliad refeniw yn cynnwys swm a fydd yn cwmpasu'r DIR mewn perthynas â'r benthyca â chymorth yn ogystal â'r costau llog.

**3.7.** Ar gyfer 2015/16 a 2016/17, 'roedd y setliad o ran cyfalaf fel a ddangosir yn Nhabl 3 isod: -

| Tabl 3<br>Setliad Cyfalaf 2015/16 a 2016/17 | | | |
|---|---|---|---|
| | **2015/16<br>£ 'm** | **2016/17<br>£ 'm** | **Newid canrannol** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Cymru Gyfan | 142,837 | 142,837 | 0% |
| **Ffigurau setliad ar gyfer Ynys Môn** | | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (1) | 1,332 | 1,335 | + 0.2% |
| Benthyca â Chymorth (2) | 2,189 | 2,195 | + 0.2% |
| **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (1) + (2)** | **3,521** | **3,530** | **+ 0.2%** |
| | | | |
| **Setliad Refeniw (Elfen Gyfalaf)** | | | |
| Ad-dalu Dyled (3) | 3,054 | 3,019 | -1.1% |
| Taliadau llog (4) | 4,484 | 4,615 | + 2.9% |
| **Cyfanswm Cyllido Cyfalaf (3) + (4)** | **7,538** | **7,634** | **+ 1.3%** |

**3.8.** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf ar gyfer 2016/17 yn £8.45 miliwn, sef £0.82m yn uwch na'r cyllid y gwnaed darpariaeth ar ei gyfer yn y setliad ac mae hyn yn adlewyrchu'r DIR ychwanegol a chostau llog y benthyca digefnogaeth sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.

**3.9.** Felly, gellir gweld bod sgôp i ariannu prosiectau newydd yn 2017/18 drwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o’r setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib ond, oni bai bod y prosiectau yn cynhyrchu arbedion refeniw, yna bydd y DIR ychwanegol a’r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw ac mae’n rhaid eu hariannu trwy godi Treth Gyngor uwch neu drwy wneud arbedion refeniw mewn mannau eraill.

## 4. RHAGLEN YSGOLION YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

**4.1.** Mae'r Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion drwy'r rhaglen uchod. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni’r holl amcanion a fwriadwyd ar ei chyfer, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau am gost cyfalaf o tua £120m. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y rhaglen gyda dwy ysgol newydd yn cael ei hadeiladu (Ysgol Cybi ac Ysgol Y Llannau).

**4.2.** Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu ar sail 50% o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% drwy fenthyca digefnogaeth. Mae’r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf arian grant (67%) a benthyca â chymorth (33%).

**4.3** Nodwch os gwelwch yn dda fod y ffigyrau sy’n cael eu cynnwys yn Nhablau 4 i 6 isod yn seiliedig ar waith cychwynnol a wnaed gan y Gwasanaethau Asedau Capita a gall fod yn amodol i newid, ond maent yn rhoi syniad clir o effaith y rhaglen ar gyllideb refeniw a benthyca y Cyngor.

**4.3.** Crynhoi'r cyllid ar gyfer y rhaglen yn Nhabl 4 isod: -

| **Tabl 4<br>Ariannu Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif** | | | |
| **Prosiect** | **Band** | **Rhanbarth** | **Benthyca digefnogaeth £ 'm** | **Benthyca â Chymorth £ 'm** | **Grant LlC £ 'm** | **Cyfanswm £ 'm** |
| A1 | A | Cybi | 5.176 | 1.708 | 3.468 | 10.352 |
| A2 | A | Rhyd y Llan | 2.795 | 0.923 | 1.873 | 5.591 |
| A3 | A | Bro Aberffraw | 0.379 | 0.129 | 0.262 | 0.770 |
| A4 | A | Bro Aberffraw | 2.742 | 0.926 | 1.881 | 5.549 |
| C1 | A | Graig | 0.483 | 0.159 | 0.324 | 0.966 |
| C2 | A | Cornhir | 3.752 | 1.238 | 2.514 | 7.504 |
| C6 | A | Esceifiog | 1.000 | 0.330 | 0.670 | 2.000 |
| C3 | A | Henblas | 0.500 | 0.165 | 0.335 | 1.000 |
| **Cyfanswm Band A** | | | **16.827** | **5.578** | **11.327** | **33.732** |
| A5 | B | Seiriol | 2.771 | 0.914 | 1.857 | 5.542 |
| B1 | B | Amlwch | 10.625 | 3.506 | 7.119 | 21.250 |
| B3 | B | Llannerch-y-medd | 3.000 | 0.990 | 2.010 | 6.000 |
| D1 | B | Uwchradd Caergybi | 7.250 | 2.393 | 4.858 | 14.501 |
| D2 | B | Ysgol Gyfun Llangefni | 9.750 | 3.218 | 6.533 | 19.501 |
| D5 | B | Moelfre | 3.000 | 0.990 | 2.010 | 6.000 |
| **Cyfanswm Band B** | | | **36.396** | **12.011** | **24.387** | **72.794** |
| C4 | C | Uwchradd Bodedern | 8.980 | 2.963 | 6.017 | 17.960 |
| C5 | C | David Hughes | 11.835 | 3.906 | 7.929 | 23.670 |
| B2 | C | Bryngwran | 4.125 | 1.361 | 2.764 | 8.250 |
| B4 | C | Cemaes | 1.800 | 0.594 | 1.206 | 3.600 |
| **Cyfanswm Band C** | | | **26.740** | **8.824** | **17.916** | **53.480** |
| Ychwanegu | D | Kingsland | 3.750 | 1.238 | 2.513 | 7.501 |
| D3 | D | Fali | 4.125 | 1.361 | 2.764 | 8.250 |
| D4 | D | Llanfawr | 2.450 | 0.809 | 1.642 | 4.901 |
| **Cyfanswm Band D** | | | **10.325** | **3.408** | **6.919** | **20.652** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | | | **90.288** | **29.821** | **60.549** | **180.65** |

**4.4.** O ystyried lefel y benthyciadau sydd ei angen mae'n annhebygol y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn arian parod y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) i unrhyw raddau mawr. Felly, tybir y byddai y byddai'r holl fenthyciadau – sef rhai digefnogaeth a chyda chymorth – yn cael eu gwneud trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i fywyd disgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**4.5.** Fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.1, bydd benthyciadau â chymorth a digefnogaeth ychwanegol yn cynyddu GCC y Cyngor a fydd, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl DIR ar y cyfrif refeniw ac yn arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**4.6.** Mae'r effaith ar y GCC a'r dyddiadau posib ar gyfer ad-dalu benthyciadau i'w gweld yn Nhabl 5 isod:-

| **Tabl 5<br>GCC a Dyddiadau Ad-dalu Amcangyfrifedig o ganlyniad i Raglen Ysgolion 21ain Ganrif** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Benthyca â Chymorth £ 'm** | **Benthyca Di-gefnogaeth £ 'm** | **GCC cyfredol £ 'm** | | **Dyddiad Ad-dalu Benthyciad** |
| Y sefyllfa ar 31/03/ 2016 | 75.755 | 34.989 | 127.657 | | 2059/60 |
| **Rhaglen** | **Benthyca â Chymorth £ 'm** | **Benthyca Digefnogaeth £ 'm** | **GCC uchaf £'m** | **Blwyddyn y GCC uchaf** | **Dyddiad Ad-dalu Benthyciad** |
| Band A yn Unig | 5.578 | 16.827 | 115.599 | 2018/19 | 2069/70 |
| Band A a B | 17.589 | 53.223 | 147.791 | 2022/23 | 2073/74 |
| Band A, B a C | 26.413 | 79.963 | 166.349 | 2024/25 | 2077/78 |
| Bandiau A - D | 29.821 | 90.288 | 169.402 | 2027/28 | 2078/79 |

**4.7.** Bydd y benthyca â chymorth yn cael ei ariannu gan gynnydd yn elfen cyllido cyfalaf y setliad refeniw blynyddol ond mater i'r Cyngor yw penderfynu sut y mae'n ariannu'r benthyca digegnogaeth. Wrth i'r GCC gynyddu, bydd lefel y DIR a godir ar y cyfrif refeniw yn parhau i gynyddu, a rhaid talu'r costau llog hefyd. Mae Tabl 6 isod yn dangos effaith Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar y gyllideb refeniw. Mae hyn yn rhagdybio bod yr holl wariant yn cael ei ariannu drwy fenthyca a bod y gyfradd llog tymor hir yn 2.5%.

| **Tabl 6<br>Effaith ar Gostau Refeniw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **DIR £ 'm** | **Costau benthyca £ 'm** | **Cyfanswm y Costau Refeniw £ 'm** | |
| Cyllideb 2016/17 (Cronfa'r Cyngor yn unig) | 3.843 | 4.609 | 8.451 | |
| **Rhaglen** | **Uchafswm y DIR Ychwanegol £ 'm** | **Blwyddyn y GCC uchaf** | **Uchafswm y Costau Benthyca Ychwanegol £ 'm** | **Blwyddyn y Costau Benthyca Uchaf** |
| Band A yn Unig | 0.544 | 2020/21 | 0.538 | 2018/19 |
| Band A a B | 1.688 | 2023/24 | 1.646 | 2022/23 |
| Band A, B ac C | 2.456 | 2027/28 | 2.342 | 2025/26 |
| Bandiau A - D | 2.758 | 2028/29 | 2.599 | 2027/28 |

**4.8.** Byddai'r costau refeniw ychwanegol wrth ymgymryd â’r holl fandiau yn cyfateb i £5.3m ar ei lefel uchaf, sydd yn 63% ychwanegol o gymharu â’r lefel bresennol. Yn amlwg, ni all y Cyngor fforddio’r lefel hon o gyllid ychwanegol oni bai bod y Gyllideb Ddirprwyedig ar gyfer Ysgolion yn ei gyllido’n llawn / yn gwneud cyfraniad. Ar hyn o bryd mae £38m yn y gyllideb hon ac, felly, os bydd y costau ariannu cyfalaf ychwanegol yn cael eu hariannu ohoni yna byddai hynny’n cyfateb i ostyngiad o 14% yn y gyllideb honno. Byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw arbedion y byddai eu hangen i gydbwyso cyllideb refeniw'r Cyngor.

**4.9.** Nid yw'r penderfyniad ynghylch pa brosiectau y dylid eu gweithredu yn benderfyniad y dylid ei wneud yn awr – byddai’r penderfyniad hwnnw yn cael ei wneud ar ôl dadansoddiad ariannol manwl ac achos busnes - ond mae'n bwysig nawr i sefydlu'r egwyddor o ran sut y dylid ariannu costau’r benthyca digefnogaeth ychwanegol (DIR & Llog), h.y. i ba lefel y disgwylir i’r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer ysgolion ostwng i dalu costau benthyca digefnogaeth ychwanegol.

**4.10.** O ystyried maint rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mae’n bwysig hefyd i sefydlu'r egwyddor bod angen i'r rhaglen sefyll ar ei phen ei hun ac ni ddylid ymgymryd â phrosiect ar draul prosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan y ffynonellau arferol o gyllid cyfalaf (grant cyfalaf cyffredinol, benthyca â chymorth, grantiau penodol, derbyniadau cyfalaf – heblaw am ysgolion).

## 5. AMCANGYFRIF O’R ARIAN SYDD AR GAEL AR GYFER 2017/18

**5.1.** Gan mai un o brif flaenoriaethau’r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys tra'n lleihau'r gostyngiad yn y cyllidebau gwasanaeth, mae'n rhesymol i'r Cyngor leihau'r cynnydd sydd ei angen yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Bydd angen darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid ei gadw ar lefel sy'n cael ei ariannu drwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chymorth), fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei ariannu drwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**5.2.** Ni ddylid ond ystyried benthyca digefnogaeth (y tu allan i raglen ysgolion yr 21ain Ganrif ) pan fo modd gwneud gostyniad yn y cyllideb gwasanaeth perthnasol sy’n fwy na’r DIR a’r costau llog.

**5.3.** Ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd lefel y benthyca â chymorth a’r grant cyfalaf cyffredinol ond, os bydd yn parhau i fod yr yn fath ag yn 2016/17, byddai hyn yn darparu £1.3m fel grant cyfalaf cyffredinol a £ 2.2m fel benthyca â chymorth.

**5.4.** Fel rhan o'r rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17, neilltuwyd £0.96m ar gyfer 4 cynllun na fyddant bellach yn mynd ymlaen neu sy’n debygol o danwario. Gan fod costau refeniw’r cynlluniau hyn wedi eu cynnwys yng nghyllideb cyllido cyfalaf 2016/17, gallai'r cyllid barhau heb gynyddu'r gyllideb refeniw. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn: -

**Tabl 7**
**Cynlluniau 2016/17 lle nad oes angen y cyllid cychwynnol mwyach**

| **Cynllun** | **Cyllid sydd ar gael £ '000** |
|---|---:|
| Doc Pysgod Caergybi | 96 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 68 |
| Gweithio’n Gallach | 400 |
| **CYFANSWM Y CYLLID NA DDEFNYDDIWYD** | **564** |

**5.5.** Yn ychwanegol at y cyllid hwn, byddai adnoddau ar gael i ariannu prosiectau CRT drwy'r Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr (£2.66m) a thrwy unrhyw gyllid sydd ar gael yng nghronfeydd wrth gefn y CRT ei hun.

**5.6.** Bydd grantiau penodol sydd wedi eu cymeradwyo neu sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sydd ar gael yn dilyn ceisiadau llwyddiannus hefyd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu rhywfaint o'i gyllid cyfalaf ei hun fel arian cyfatebol er mwyn medru denu arian grant. Mae'r grantiau sydd wedi cael eu nodi ar hyn o bryd fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2017/18 yn cynnwys: -

- Ffordd Gyswllt Llangefni – fel bod modd cwblhau'r cynllun;
- Llwybr Mwy Diogel yn y Gymuned - cyllid grant 100%;
- Diogelwch ar y Ffyrdd - cyllid grant 100%;
- Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Miwmares - cyllid tua 90%;
- LlLlLlA 2 – yn dal i drafod gyda Llywodraeth Cymru;
- Isadeiledd Caergybi a Llangefni - disgwyl cadarnhad a fu'r ceisiadau yn llwyddiannus ai peidio.

**5.7.** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn dibynnu ar ba asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r arian a geir yn sgil gwerthu rhai o'r asedau wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn, e.e. mae arian a geir o werthu hen safleoedd ysgol wedi ei neilltuo ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif ac mae'r arian o werthu hen safleoedd swyddfa wedi ei neilltuo i'r Prosiect Gweithio'n Gallach. O ganlyniad, ni ellir neilltuo'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2017/18 i ariannu prosiectau cyfalaf newydd.

**5.8.** Fel y nodwyd eisoes, rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm / arbedion gwariant refeniw ychwanegol i ariannu'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DIR a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a ariennir drwy fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul un.

**5.9.** I gloi, dylid cyfyngu'r cyllid fydd ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2017/18 i i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (amcangyfrif £1.3m), benthyca â chymorth (amcangyfrif £2.2m), arian nad yw wedi ei ddefnyddio o flynyddoedd blaenorol (£0.96m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn y flwyddyn ond na chawsant eu dyrannu. Byddai hyn yn rhoi cyllideb o tua £4.5m (mae'r ffigwr terfynol yn dibynnu ar y setliad a geir gan Lywodraeth Cymru).

## 6. YMRWYMIADAU POSIB AR GYFER 2017/18

**6.1.** Mae rhaglenni cyfalaf blaenorol wedi nodi ymrwymiadau posib ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch cyllid ac felly gellid dadlau nad oes unrhyw ymrwymiadau ar hyn o bryd. Efallai bod hynny'n wir am gynlluniuau heblaw am raglen ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif, cynlluniau CRT a chynlluniau a ariennir gan grant, ond dylid ymrwymo gwariant bob blwyddyn i gynnal ac uwchraddio asedau hanfodol. Y prif feysydd y dylid eu cyllido'n flynyddol yw: -

- Gliniaduron a chyfrifiaduron newydd - amcangyfrifir bod angen £100k i gael dyfeisiau newydd dros gyfnod o bedair blynedd;
- Disgiau, Serfwyr a Rhwydwaith – yn rhaglen gyfalaf 2016/17 nodwyd bod angen £150k;
- Trwyddedu Meddalwedd - yn rhaglen gyfalaf 2016/17 nodwyd bod angen 72k;
- Cerbydau newydd – neilltuwyd swm o £150k yn rhaglen gyfalaf 2016/17;
- Gwaith atgyweirio a gyfalafwyd ar adeiladau'r Cyngor ac ysgolion – 'roedd rhaglen gyfalaf 2016/17 yn nodi bod angen £1.8m y flwyddyn dros 4 blynedd i drwsio diffygion yn holl adeiladau ysgol. Nodwyd fod angen £200k y flwyddyn ar ben hynny ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio hanfodol ar adeiladau nad ydynt yn ysgolion;

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl - mae hwn yn grant gorfodol y mae'n rhaid ei gynnig. Yn 2016/17 neilltuwyd £816k i gwrdd â chost y ceisiadau a dderbyniwyd.

**6.2.** Fel rhan o'r broses o wneud cais am arian Buddsoddi i Arbed, cafwyd nifer o geisiadau am arian i wneud mân-waith cyfalaf a fyddai'n gostwng costau refeniw, e.e. prosiectau arbed ynni. ‘Roedd rhai o'r prosiectau wedi cael sylw eisoes fel rhan o'r broses bidio yn 2016/17 ond nid oeddent wedi derbyn sgôr digon uchel bryd hynny gan nad oeddent yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, ystyrir bod y ceisiadau hyn yn haeddu sylw gyda’r cyllid ar eu cyfer yn dod o swm a benderfynwyd ymlaen llaw ac a ddyrennir bob blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf gyffredinol. Byddai modd wedyn pennu pa brosiectau fydd yn cael eu hariannu yn seiliedig ar set o feini prawf ar gyfer y prosiectau hyn yn unig.

**6.3.** Ar y cychwyn, cafodd swm cyfalaf ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf i ariannu gwaith arwynebu ffyrdd a chyllidwyd y costau benthyca ychwanegol drwy fenthyca â chymorth. Yn 2016/17, cynhwyswyd £2.2m yn y rhaglen gyfalaf ond roedd y gefnogaeth benodol gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben. Er mwyn cyflawni mwy o arbedion refeniw ac i sicrhau y gellir cwrdd â’r isafswm trothwyon gwaith contract, cafwyd cais i gynnwys y swm hwn yn y rhaglen gyfalaf unwaith yn rhagor. Ni fyddai’r cynnig hwn ond yn gost-effeithiol pe bai’r gwaith yn cael ei ariannu o'r grant cyfalaf / benthyca â chymorth. Os byddai’r gwaith yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth, ni fyddai'r arbedion refeniw arfaethedig o £50k yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a fyddai o gwmpas £150k.

**6.4.** Fel y gŵyr Aelodau, mae’n ofynnol i'r Cyngor ddatblygu un safle parhaol a dau safle dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd grant gan Lywodraeth Cymru yn cwrdd â chost y safle parhaol ond nid y safleoedd dros dro. Bydd cost y gwaith yn dibynnu ar y ba safleoedd a ddewisir, h.y. os bydd angen prynu tir, bydd cost y safleoedd dros dro yn cynyddu.

**6.5.** Mae'r ymrwymiad diwethaf yn ymwneud â'r System Rheoli Cynnwys y Wefan. Neilltuwyd £75k yn 2016/17 a gofynnwyd am £25k pellach ar gyfer 2017/18. Gan fod y prosiect hwn wedi dechrau, dylid cyllido unrhyw gostau sy’n weddill ar gyfer 2017/18.

## 7. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT GYCHWYNNOL CRONFA’R CYNGOR 2017/18

**7.1.** Yn seiliedig ar baragraffau 5 a 6, byddai rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer Cronfa’r Cyngor 2017/18 fel a ddangosir yn Nhabl 8 isod. Ariennir rhaglen gyfalaf y CRT o fenthyca neu drwy’r arian wrth gefn y gronfa a bydd y cynlluniau a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf yn cael eu penderfynu, i ddechrau, gan y Bwrdd Gwasanaethau Tai.

| Tabl 8<br>Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2017/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf Amlinellol 2017/18 (ac eithrio Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif , CRT a phrosiecau a gyllidir gyda grant)** | | |
| **Ariannu** | **£ 'm** | **Sylw** |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.30 | Hwn yw dyraniad 2016/17 |
| Benthyca â Chymorth | 2.20 | Hwn yw dyraniad 2016/17 |
| Cyllid a neilltuwyd ond nad oes ei angen mwyach | 0.56 | Gweler paragraff 5.4 |
| Derbyniadau cyfalaf | 0.30 | Amcangyfrif |
| **CYFANSWM CYLLID** | **4.36** | |
| | | |
| **Prosiectau i'w Hariannu yn 2017/18** | | |
| **Dyraniadau blynyddol**<br>Caledwedd TG newydd<br>Trwyddedu Meddalwedd TG<br>Cerbydau newydd<br>Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau<br>Grant Cyfleusterau i'r Anabl<br>Prosiectau Buddsoddi i Arbed | | |
| **Ymrwymiadau Parhaus**<br>Safleoedd Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr<br>Rheoli Cynnwys Gwefan<br>Ailwynebu priffyrdd | | |
| **Prosiectau newydd**<br>I'w benderfynu yn seiliedig ar geisiadau | | Bydd y swm sydd ar gael yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael a’r symiau a ddyrannwyd i'r prosiectau dyrannu blynyddol a'r ymrwymiadau parhaus |

## 8. ARGYMHELLION

**8.1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol fel rhan o'r strategaeth gyfalaf: -

**1.** Sefydlu'r egwyddor fod unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu hariannu trwy ostyngiad cyfatebol yn y gyllideb a ddiprwywyd i ysgolion.

**2.** Bod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i raglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor.

**3.** Bod yn rhaid i brosiectau unigol o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynhyrchu gwerth net positif a bod y gwerthusiad yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y costau cyllido cyfalaf ychwanegol yn cael eu hariannu o'r gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion.

**4.** Bod y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 yn cael ei gyfyngu i werth y grant cyfalaf cyffredinol, lefel y benthyca â chymorth, gwerth y cyllid ar gyfer prosiectau a gytunwyd yn flaenorol ond nad oes eu hangen mwyach, ynghyd â gwerth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd ond sydd heb eu dyrannu.

**5.** Sefydlu'r egwyddor bod yr eitemau a nodir ym mharagraff 6.1. uchod yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir i bob pennawd yn cael ei gytuno fel rhan o'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb gyfalaf bob blwyddyn, gan ddibynnu ar lefel y cyllid sydd ar gael.

**6.** Ni fydd prosiectau sy'n cael eu hariannu o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu gweithredu os bydd y gostyngiad yn y costau refeniw neu'r cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

**7.** Bod rhywfaint o waith arwynebu ffyrdd yn cael ei ariannu o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnu ar faint o gyllid sydd ei angen i gwrdd ag unrhyw warantau ynghylch isafswm gwerth contractau, y lefel o arian sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.

**8.** Ychwanegu prosiectau a ariennir gan grant at y raglen gyfalaf 2017/18 unwaith y bydd lefel y cyllid yn hysbys.

**9.** Bod prosiectau sydd angen rhywfaint o arian cyfatebol i fedru denu arian grant yn cael eu hasesu ar sail achos wrth achos gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo cyllid ai peidio yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n cydweddu â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r gymhareb o ran faint y byddai angen i'r Cyngor ei gyfrannu a faint fyddai'n arian grant.

**10.** Bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau newydd yn cael eu hasesu yn unol â'r matrics sgorio a oedd mewn grym yn 2016/17, h.y. rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, sy'n lliniaru risgiau corfforaethol, sy'n cyflawni arbedion refeniw yn y dyfodol ac sy'n gallu dangos bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi cael eu sefydlu.